



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

## Atodiad A - Astudiaethau Achos



Yn ystod yr adolygiad rydym wedi cyhoeddi galwadau am Astudiaethau Achos ar gyfer yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ac wedi ystyried yr enghreifftiau diweddar o Wobrau Arfer Arloesol Un Llais Cymru. Rydym wedi ystyried pob astudiaeth achos ac wedi dethol rhai ohonynt isod sy'n disgrifio ein argymhellion ni orau yn ein tyb ni.

## **Thema 1:** Cynghorau Tref a Chymuned – Beth ydynt

### **Astudiaeth Achos 1: Modelau llywodraethu eraill**

Mewn rhannau eraill o'r byd mae llywodraethu lleol yn edrych ac yn teimlo'n dra gwahanol. Er enghraifft, caiff y Comiwn yn Ffrainc (sy'n cynnwys corff trafod neu benderfynu (y cyngor dinesig) a gweithrediaeth (y Maer) ei ethol am chwe blynedd. Mae'n pennu canllawiau ar gyfer polisi trefol, yn mabwysiadu'r gyllideb, yn rheoli asedau trefol, yn anad dim adeiladau ac offer ysgolion cynradd, ac yn penderfynu sut y bydd y weinyddiaeth drefol yn gweithredu.

Mae gan yr Almaen ddull sy'n canolbwyntio'n agored ar ddinasyddion, gyda dinasyddion yn cyflawni rôl cydgyhyrchu a chomisiynu. Gall cynghorau yn yr Almaen benderfynu ar derfynau'r uned gymunedol, is-ddeddfau lleol, cynlluniau ar gyfer y gyllideb a phersonél, cynlluniau busnes, materion cynllunio defnydd tir a chynllunio tref, yn ogystal â gwneud penderfyniadau o ran polisiau cymdeithasol, polisiau ieuencid, polisiau dinasyddion hŷn, polisiau diwylliannol, polisiau chwaraeon a pholisiau manau gwyrdd lleol; a hefyd, polisi seilwaith, ynni ac economaidd hyd y bo'n fater lleol.

Mae gan Unol Daleithiau America gyfreithiau llywodraeth leol sydd gyda'r mwyaf cymhleth yn y byd. Er bod systemau trefol mewn nifer o daleithiau'n debyg o ran polisi, dull ac arfer, ceir nifer o amrywiadau, eithriadau a gwahaniaethau mewn ffurf a gweithrediad. Gall y gwahaniaethau hyn fodoli o fewn gwladwriaethau hyd yn oed. Ar y cyfan, mae llywodraethau 'dinesig' lleol wedi'u modelu'n seiliedig ar system Prydain (sy'n dyddio'n ôl i'r hen siroedd) o gynghorau etholedig. Caiff anghenion pobl – o'r heddlu i lanweithdra, o addysg i ddiogelwch tân, o dai i gludiant cyhoeddus – eu diwallu, yn fwyaf uniongyrchol, gan lywodraethau dinesig.

Nid oes haen Llywodraeth Leol ar y lefel gymunedol yn yr Iseldiroedd ond mae gan y wlad dros 400 o fwrdeistrefi. Mae cynghorau trefol yn yr Iseldiroedd yn cyflawni swyddogaeth sydd i'w gweld yn debyg i Awdurdodau Lleol Cymru.

Yn nes at adref, ledled y DU, mae'r gwahaniaethau yr un mor eglur. Er enghraifft, mae gan Gynghorau Cymuned yn yr Alban<sup>1</sup> lai o bwerau na chynghorau cyfatebol yng Nghymru neu yn Lloegr. Gall eu rôl benodol amrywio yn ôl anghenion eu hardal leol gyda llawer o Gynghorau Cymuned yn yr Alban yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau gan gynnwys codi arian, trefnu digwyddiadau cymunedol, cyflawni prosiectau amgylcheddol ac addysgol. Nid oes hawl gan Gynghorau Cymuned yn yr Alban i godi arian trwy osod praesept ar drethi lleol, ac yn lle hynny maent yn ddibynnol ar gyllid Awdurdodau Lleol, y maent yn ei gael fel arfer ar gyfer costau rhedeg yn unig (tua £400 y flwyddyn).

Ymddengys mai Cynghorau Tref a Phlwyf Lloegr yw'r enghraifft debycaf i Gynghorau Tref a Chymuned Cymru. Maent yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig yn bennaf ond yn amrywio'n fawr mewn maint, gweithgarwch ac adnoddau. Er bod gweithgareddau nodweddiadol yn cynnwys rheoli/cynnal a chadw ymylon ffyrdd, llwybrau troed, manau chwarae a rhandiroedd, mae pwerau sy'n caniatáu iddynt gyflawni ystod eang o ddyletswyddau. Nid yw Cynghorau Tref a Phlwyf yn cael unrhyw arian grant gan y Llywodraeth ganolog, er y gallant godi praesept ar fil y Dreth Gyngor (ac maent yn gwneud hynny fel rheol).

## **Thema 2:** Cyngorau Tref a Chymuned – Yr hyn y maent yn ei wneud

### **Astudiaeth Achos 1: Gwasanaethau sy'n Seiliedig ar Leoedd**

Gwyddom fod nifer o Gyngorau Tref a Chymuned ledled Cymru eisoes yn darparu ystod o wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd. Nid yw hyn yn gysylltiedig â maint gan fod enghreifftiau o gyngorau 'micro' llai a chynghorau 'macro' mwy sydd i gyd yn darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd.

Er enghraifft, fe gytunodd Cyngor Tref Caerwys, ar y cyd â Chynghorau Cymuned Helygain a Chwitfordd, i fynd ati ar y cyd i adolygu goleuadau stryd. Gyda bron i 400 o oleuadau rhyngddynt, cynhaliwyd cyfarfodydd ar y cyd gydag is-bwyllgorau o bob Cyngor: cafwyd dyfynbrisiau a chafodd y rhain eu cytuno wedyn gan y Cyngor llawn – gyda'r tri Chyngor yn ymrwymo i gontract i osod goleuadau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn lle'r goleuadau presennol. Mae'r goleuadau newydd wedi'u gwarantu am gyfnod o 10 mlynedd a byddant yn defnyddio tua 40% yn llai o drydan. Bydd hyn yn lleihau'r ôl troed carbon, bydd yn golygu na fydd angen gosod bylbiau newydd costus mwyach a bydd yn lleihau costau cynnal a chadw. Rhyngddynt, bydd y Cyngorau'n arbed rhwng £6,000 a £7,000 y flwyddyn ar eu cyllidebau cyflenwi ac atgyweirio.

Mewn ymateb i'r galw ymhlith trigolion bu Cyngor Cymuned Llandudoch yn gweithio mewn partneriaeth i adnabod tir posibl ar gyfer rhandiroedd. Mynegodd 27 o unigolion ddiddordeb mewn rhentu llain ac fe sefydlon nhw Gymdeithas Rhandiroedd Llandudoch. Fe drafododd y Cyngor Cymuned delerau ar gyfer prydles deng mlynedd ar gyfer y Gymdeithas Rhandiroedd ar dir amaethyddol preifat a bu'n mentora'r Gymdeithas Rhandiroedd tra bo'r Gymdeithas gymunedol yn sicrhau dau grant i dalu am aredig/llyfnu'r tir, adeiladu ffens rhag cwningod a sefydlu cyflenwad dŵr.

## Astudiaeth Achos 2: Llesiant

Gwyddom fod Cynghorau Tref a Chymuned eisoes yn mynd yr ail filltir er mwyn diwallu angen neu eisiau yn eu cymuned. Er enghraifft, mae Cyngor Tref Trefynwy yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Fynwy a Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Ochr yn ochr â'u Blychau Atgofion thematig, maent wedi bod yn treialu caffis atgofion. Mae'r caffis misol hyn yn cynnig profiad ymgolli i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae te prynhawn ar thema benodol, sesiynau atgofion, cerddoriaeth a ffasiwn oll yn cael eu defnyddio fel sbardunau i ysgogi'r cof ac ennyn sgwrsiau.

Yn arwyddocaol mae'r caffis hyn wedi cael eu datblygu a'u cynnal gyda phobl ifanc o Ysgol Gyfun Trefynwy fel rhan o'u Her Gymunedol ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Bu'r bobl ifanc yn mynychu sesiynau ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia a hyfforddiant Hel Atgofion, yn adnabod ac yn ymchwilio i themâu ar gyfer y caffis, yn datblygu bwydlenni priodol ac yn adnabod gwrthrychau a gwisgoedd hel atgofion, yn ogystal â rhedeg y caffis ar y dydd.

Mae'r sesiynau'n darparu rhaglen rad a buddiol i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd, arwahanrwydd a dementia. Bu'r bobl ifanc yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau rhyngpersonol hefyd.



## Astudiaeth Achos 3: Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael budd o lais Cynghorau Tref a Chymuned

Gwyddom fod enghreifftiau da o Fyrddau Gwasanaethau Lleol sydd eisoes yn ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn eu hardaloedd, i gynnwys llais eu cymunedau yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Er enghraifft, ers cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi defnyddio'r Ddeddf fel ffordd wahanol o ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned. Mae 72 o Gynghorau Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin, sy'n gallu ei gwneud yn anodd ymgysylltu â'r holl gynghorau. Fodd bynnag, mae perthynas weithio dda wedi cael ei sefydlu â'r saith cyngor y mae'r ddyletswydd dan y Ddeddf yn berthnasol iddynt a cheir cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy. Mae Cynghorau Tref a Chymuned wedi dangos eu hymrwymiad i weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd trwy ofyn am dempled i'w defnyddio ar gyfer adroddiadau blynyddol, yn seiliedig ar amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn yn helpu Cynghorau Tref a Chymuned i adrodd ar yr un peth a gallu bwydo i mewn i adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Astudiaeth Achos 4: Ymgysylltu

Ceir enghreifftiau o Gyngorau Tref a Chymuned yn ymgysylltu â'u cymunedau, ac yn cynnwys eu cymunedau mewn penderfyniadau lleol. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf yn Nhrefynwy roedd y digwyddiad Nadolig blynyddol wedi colli ei befrad. Fe sefydlwyd gweithgor ar y cyd â Chynghorwyr a gwirfoddolwyr. Gan ddefnyddio cyllideb fach gan Gyngor Tref Trefynwy, dyfeisiwyd digwyddiad lle'r oedd y gymuned yn creu llusernau i'w harddangos â balchder yn ystod gorymdaith gyda'r nos. Y prif nod oedd rhoi anogaeth ar gyfer cyfranogiad gweithredol.

Cysylltodd y Cyngor ag ystod eang o grwpiau ac unigolion, gyda gwirfoddolwyr a Chynghorwyr yn cynnal gweithdai i addysgu am y broses o wneud llusern pyramid. Fe ymgysylltwyd trwy'r e-bost, y Cyfryngau Cymdeithasol, negeseuon ar lafar gwlad a dulliau traddodiadol (papur newydd lleol a hysbysfyrddau). Cynhaliodd y gweithgor ddau weithdy ychwanegol ar gyfer y cyhoedd a thri gweithdy ar ôl ysgol hefyd.



Roedd cyfranogiad ym mhob gweithdy'n uchel. Ar y cyfan, daeth dros 684 o bobl i'r gweithdai ar gyfer arweinwyr grwpiau, gyda 110 yn y sesiynau ar gyfer y cyhoedd ac 81 yn yr ysgolion. Daeth tua 2000 o bobl i Orymdaith Llusernau Nadolig Trefynwy ar 8 Rhagfyr 2017. Ar ben hynny, ymunodd pymtheg o aelod newydd o'r gymuned, nad oeddent wedi gwirfoddoli i'r Cyngor Tref yn flaenorol, â gweithgor y Cyngor Tref yn barod ar gyfer digwyddiad Nadolig 2018 ac mae'r gefnogaeth yn dal i dyfu ledled y Dref.



Yn Llandochau roedd y Cyngor yn ymwybodol o wasanaethau a chyfleusterau yn y gymuned ond roedd arnynt eisiau canfod pa mor aml yr oeddent yn cael eu defnyddio; a gofyn i'r gymuned sut i wella a datblygu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn. Fe sefydlon nhw Weithgor Ymgysylltu â'r Gymuned gan gasglu gwybodaeth a barn gan Dim Ymgysylltu Bro Morgannwg, Ysgol Gynradd Llandochau, y Sgowtiaid a'r Geidiau a defnyddwyr gwasanaethau. Trwy ddeialog gychwynnol cafodd arolwg byr, dros ddwy dudalen (gefn wrth gefn) ei ddatblygu a'i ddsbarthu i'r holl aelwydydd. Cafodd arolwg ar-lein ei sefydlu hefyd a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo ar yr arolwg papur. Cafwyd cyfanswm o 227 o ymatebion dilys (25% o'r aelwydydd). Cafodd y data'i ddadansoddi gan gynghorwyr ac fe luniwyd cynllun / amserlen gweithredu i dargedu defnydd o adnoddau presennol ac adnoddau posibl yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a mynd ati'n frwd i chwilio am ragor o ddefnyddwyr yn y gymuned.

## Thema 3: Cyngorau Tref a Chymuned – Sut y maent yn ei wneud

### Astudiaeth Achos 1: Modelau Darparu

Ledled Cymru, lle mae Cyngorau Tref a Chymuned yn clystyru, mae gwahanol fodolau a threfniadau llywodraethu i'w cael. Nid yw'n hysbys eto pam fod Cyngorau Tref a Chymuned yn dewis rhai modelau penodol ond maent yn dewis y model sy'n gweddu orau iddynt hwy.

Yn ystod yr adolygiad, rydym wedi canfod llawer o enghreifftiau gan gynnwys:

- Mae Cyngor Cymuned Wledig Llanelli yn gweithio gyda Chyngor Tref Llanelli i roi cymorth i gynnal a chadw tir lleol a rheoli Mynwent Ardal Llanelli. Gan gydnabod yr angen i gyfuno adnoddau a ffurfioli trefniadau blaenorol ar gyfer cydweithio trwy bwyllgor, mae Cyngor Cymuned Wledig Llanelli a Chyngor Tref Llanelli wedi datblygu **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn rheoleiddio gweithgareddau'r cydbwyllgor a'r berthynas rhwng y Cyngorau yn well yn y dyfodol. Caiff y ddau faes gwasanaeth eu rheoli gan gytundebau lefel gwasanaeth ar wahân sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac yn diffinio rôl a chyfraniad y naill cyngor a'r llall.
- Sefydlodd Partneriaeth Penllyn **gwmni dielw cyfyngedig** (Cwmni Pum Plwy Penllyn Cyf), i ymgeisio am grant a gweithio mewn meysydd sydd y tu allan i gylch gwaith Cyngor Gwynedd. Sefydlwyd Partneriaeth Penllyn ei hun yn 2009 oherwydd pryder bod gwasanaethau'n cael eu darparu o bellter neu ddim o gwbl – ac nad oeddent yn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd bum Cyngor Tref a Chymuned i'w gwneud yn bosibl cydweithio a chryfhau rôl Cyngorau Tref a Chymuned yn yr ardal.
- Sefydlodd Partneriaeth Ogwen **fenter gymdeithasol** (Ynni Ogwen) – cymdeithas buddiannau cymunedol, sy'n gweithredu er budd cymunedol ac amgylcheddol Dyffryn Ogwen. Mae'r model, a ariennir gan dri Chyngor Tref a Chymuned yn yr ardal, yn ffordd o ddarparu gwasanaethau'n gydweithredol gan gynnal unigrywiaeth a chynrychiolaeth leol ar gyfer pob cyngor. Mae pob cyngor yn talu swm cymesur i mewn i'r bartneriaeth, gan ddefnyddio fformwla y cytunwyd arno.
- Mae Gogledd Sir Drefaldwyn wedi sefydlu **Cwmni Buddiannau Cymunedol** i fod o gymorth i'w trefniadau llywodraethu ar y cyd, gan sicrhau bod gan bob cyngor lais cyfartal mewn materion cydweithio.
- Mae Cyngor Cymuned Solfach wedi sefydlu **menter gymdeithasol ddielw** (Gofal Solfach) i gynnig cymorth a help cyfeillgar, lleol i'r rhai ac arnynt ei angen yn Solfach a'r cylch. Prosiect cymunedol ydyw sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol ac a sefydlwyd yn 2015, mewn ymateb i ddymuniadau trigolion lleol.
- Mae gan Gyngor Tref y Bont-faen **Gytundebau Lefel Gwasanaeth** ar hyn o bryd gyda Bro Morgannwg mewn perthynas â TGCh / Rheoli'r Wefan a'r Gyflogres. Mae gan Gyngor Cymuned Penarlâg a Chyngor Cymuned Brychdwn a Bretton Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Tref Shotton hefyd ar gyfer gwasanaethau gweinyddu a chynnal a chadw.
- Ym 1996, sefydlodd Cyngor Cymuned Llandudoch **fudiad cymunedol** i ymdrin â materion sy'n ymwneud â llwybrau troed (cofrestru, ail-agor a chynnal a chadw). Mae 'Llwybrau Llandudoch' yn dal i fod yn fudiad ffyniannus sy'n cynnal arolygon o lwybrau troed, yn gwneud gwaith cynnal a chadw, yn cynnal teithiau cymdeithasol ac, yn fwy diweddar, yn trefnu digwyddiadau mewn partneriaeth gyda mudiadau pentref eraill.

## Astudiaeth Achos 2: Digidol

Gwyddom fod enghreifftiau da o Gyngorau Tref a Chymuned sy'n defnyddio gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'u cymuned. Er enghraifft, mae Cyngor Cymuned Maesyfed wedi adnewyddu, ailwampio a moderneiddio ei wefan yn ddiweddar. Yn ystod y broses hon, fe ychwanegwyd nodweddion newydd gan gynnwys Google Translate i Gymraeg, tudalen newyddion a digwyddiadau a thudalennau am y Cyngor gan gynnwys:

- Gwybodaeth am Aelodau'r Cyngor a'u Lwfansau
- Calendr Cyfarfodydd y Cyngor a phapurau cyfarfodydd wedi'u lanlwytho
- Cod Ymddygiad a Datganiadau Buddiant
- Cofnodion y Cyngor, dogfennau ariannol (gan gynnwys y praesept, cyfrifon, archwilio)
- Rheoliadau'r Cyngor a Cheisiadau Cynllunio
- Newyddion y Cyngor.

Mae tudalennau'n cael eu diweddarau ar ôl pob un o gyfarfodydd y Cyngor â'r wybodaeth fwyaf newydd a thrwy gydol y mis fel y bo'n ofynnol. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen dolenni defnyddiol gyda gwybodaeth gysylltu ar gyfer yr heddlu lleol, yr AS a.y.b., a thudalen benodol ar gyfer Cerddoriaeth ym Maesyfed – atyniad poblogaidd sy'n denu llawer o ymwelwyr i'r pentref. Gall busnesau lleol ofyn am dudalen ac mae nifer wedi gwneud hynny i hyrwyddo'u cynnyrch a'u gwasanaethau. Gellir rhaglennu eitemau newyddion a digwyddiadau fel eu bod yn cael eu tynnu oddi ar y wefan yn awtomatig ar ôl cyfnod penodol, sy'n atal eitemau rhag aros ar y wefan wedi i'r dyddiad fynd heibio.

Gall trigolion gyflwyno ffotograffau i'w cynnwys ar y wefan hefyd a chael eu hychwanegu at restr ohebu i gael eu hysbysu pan fo eitemau newyddion yn cael eu hychwanegu. Mae'r Cyngor yn archwilio costau gwella'r wefan ar gyfer pobl â nam ar eu golwg a chyflwyno cyfieithiadau i ieithoedd ychwanegol.

### **Astudiaeth Achos 3: Perthnasoedd rhwng Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned**

Gwyddom fod enghreifftiau o berthnasoedd cadarnhaol rhwng Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Gwyddom hefyd fod rhai Awdurdodau Lleol wedi sylwi ar feysydd lle gellir gwella ar hyn.

Er enghraifft, yn Wrecsam trefnwyd Fforwm i ddod â chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin rhwng dwy haen Llywodraeth Leol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Fforwm ym mis Hydref 2006 ac roedd cynrychiolwyr o 19 Cyngor Tref a Chymuned gwahanol yn bresennol ynddo. Gan fod hwnnw wedi profi'n llwyddiant, gwnaed trefniadau i'r Fforwm gwrdd yn chwarterol ac mae nifer dda'n dal i ddod i bob cyfarfod. Yn ogystal ag amrywiaeth o gyflwyniadau gan Swyddogion yn y Cyngor, mae nifer o fudiadau a sefydliadau allanol yn mynychu'r Fforwm i roi cyflwyniadau, e.e. Heddlu De Cymru, Un Llais Cymru a Virgin Media a.y.b. Mae CBS Wrecsam o'r farn bod y Fforwm yn ddull effeithiol iawn o ymgysylltu â'u Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cytuno ar siarter gyda'i Gynghorau Tref a Chymuned sy'n pennu safonau ar gyfer materion megis cyfathrebu, llywodraethu, moeseg a gweithio mewn partneriaeth, a rheolaeth ariannol. Hefyd, mae'r Cyngor Sir yn cwrdd â'i Gynghorau Tref a Chymuned 3 neu 4 gwaith y flwyddyn yn y Fforwm Sirol. Caiff y fforwm ei letya a'i gadeirio gan Dref neu Gymuned wahanol ym mhob cyfarfod. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i'r Cyngor Sir hysbysu'r cynghorau ynghylch materion sydd o ddiddordeb/ o bwys, cynyddu dealltwriaeth cynghorwyr tref/cymuned am faterion pwysig ac ymgynghori â chynghorau tref a chymuned ynghylch materion lleol pwysig a allai effeithio arnynt i gyd megis newidiadau i gymorthdaliadau bysiau. Mae'r agenda'n cynnwys slotiau i'r Cynghorau Tref a Chymuned godi materion sy'n achosi pryder neu arddangos gweithgareddau lleol sy'n destun balchder megis gwyliau a digwyddiadau. Bydd y Prif Weithredwr a/neu'r Swyddog Monitro wastad yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm Sirol ynghyd â'r prif swyddogion neu uwch reolwyr sy'n rhoi cyflwyniadau ar faterion penodol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cyflawni Rhaglen Foderneiddio bwysig sydd wedi'i bwriadu i ysgogi newid a gwelliant parhaus i ddiwallu anghenion newidiol eu cymunedau. Maent yn canolbwyntio ar adolygu'r ffordd y maent yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda'u cymunedau. Mae Conwy yn cydnabod y bydd gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau, partneriaid yn y Trydydd Sector a Chynghorau Tref a Chymuned yn ffordd well o alluogi a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion trigolion. Fel rhan o'r siwrne foderneiddio, maent wedi sefydlu pum Fforwm Ardal Leol i wneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth gymunedol, gweithio mewn partneriaeth a mentrau lleol. Maent yn cydnabod ei bod yn adeg gynnar yn oes y Fforymau Ardal Leol ac yn treialu modelau gweithio gwahanol, ond mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu dull mwy cynhwysol, ymgysylltiol a strategol. Er enghraifft, mae un Fforwm Ardal Leol eisoes yn gweithio ar y proffil o'u hardal o ran demograffeg a seilwaith, ac wedi trefnu 'digwyddiad ymgysylltu' gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i gael gwell dealltwriaeth am themâu, amcanion a blaenoriaethau cyffredin, gan gynnwys cymunedau yn y broses yn ogystal ag yn y gwaith cyflawni.



## **Thema 4:** Cyngorau Tref a Chymuned – Sut y cânt eu dwyn i gyfrif

### **Astudiaeth Achos 1: Ysgogi Amrywiaeth**

Gwyddom fod nifer o Gyngorau Tref a Chymuned yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardal a bod ganddynt gyngor ieuentid. Er enghraifft, mae Grŵp Gweithredu Ieuentid y Barri (a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2014) yn cael ei reoli gan Grŵp Gweithredu Ieuentid y Fro ac yn cael ei ariannu trwy'r Cyngor Tref. Mae'n eistedd o fewn y Strwythur Democrataidd Ieuentid yn yr un ffordd ag y mae'r Cyngor Tref ac yn amcanu at wrando ar farn a syniadau pobl ifanc yn y Barri i sicrhau eu bod yn cael eu cymryd i ystyriaeth pan wneir penderfyniadau.

Enwebir dau Gyngorydd Tref i fynychu cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Ieuentid y Barri er mwyn sicrhau ymgysylltu parhaus. Bob blwyddyn, mae Grŵp Gweithredu Ieuentid y Barri yn pennu tair prif flaenoriaeth ac yn 2017 pleidleisiwyd o blaid ysbwriel. Fe ymgwymerodd y grŵp â phrosiect ymchwil helaeth i adnabod materion, ardaloedd lle mae sbwriel yn broblem a ffyrdd o wella'r mater. Bu'r grŵp yn ymgysylltu â Dirprwy Brif Swyddog y Cyngor Tref am fod gan y Cyngor ei brosiect ei hun i osod Biniâu Siarad yn Ynys y Barri i wella problem sbwriel.

Mae Grŵp Gweithredu Ieuentid y Barri wedi bod yn eithriadol o werthfawr i'r Cyngor Tref gan roi anogaeth i ymgysylltu â chynulleidfau iau. Mae'r Cyngor Tref yn parhau i ymgysylltu â Grŵp Gweithredu Ieuentid y Barri ynghylch ei waith yn y dyfodol gan gynnwys y drafft o'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Gvmuned .

## **Astudiaeth Achos 2: Cynghorau Tref a Chymuned sy'n hysbysu eu cymuned yn rheolaidd ynghylch camau gweithredu**

Gwyddom fod llawer o Gynghorau Tref a Chymuned sy'n hysbysu eu cymuned yn rheolaidd ynghylch camau gweithredu ac maent yn hysbysu ynghylch y camau gweithredu hyn trwy fecanweithiau gwahanol. Fe ofynnwn ni am enghreifftiau a dywedwyd wrthym am y canlynol:

### **• Cylchlythyrau / Papurau Newydd**

- Mae gan Gyngor Cymuned Marloes a Saint-y-brid gylchlythyr Cymunedol sy'n cwmpasu ardaloedd pump neu chwech o Gynghorau Cymuned. Darperir erthygl gan y Cyngor Cymuned ar gyfer pob rhifyn – deg rhifyn y flwyddyn fel arfer. Mae hyn yn tynnu sylw at yr eitemau pwysig a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, a materion sy'n mynd rhagddynt yn barhaus.
- Mae Cyngor Cymuned Llysfaen yn cyfrannu erthyglau rheolaidd at gylchgrawn misol Llysfaen.
- Mae Cyngor Tref Cil-y-coed yn cyhoeddi datganiadau rheolaidd i'r wasg.
- Mae gan Gyngor Tref Caerwys gylchlythyr cymunedol misol (cylchrediad o 500 o gopiâu bron). Mae gan y Cyngor adroddiad ar weithgareddau sy'n ymestyn dros dudalen lawn. Caiff copïau eu danfon, trwy danysgriadiad, i aelwydydd ac maent hefyd ar gael i'w prynu yn y Caffi Lleol, mewn siopau lleol, yn Swyddfa'r Post a'r Ganolfan Grefftiau leol.
- Mae Cyngor Tref y Waun yn cyhoeddi erthyglau yn y cylchlythyr Cymunedol chwarterol. Mae'r erthyglau'n rhoi diweddariadau ar gyfarfod diweddaraf y Cyngor yn ogystal ag adrodd ar waith y Cyngor.
- Mae Cyngor Tref y Bont-faen yn hysbysu'r gymuned leol yn gyson trwy bapur newydd lleol.

### **• Gwefannau / Y Cyfryngau Cymdeithasol**

- Mae gan Gyngor Cymuned Marloes a Saint-y-brid Wefan Gymunedol.
- Gwefan Cyngor Tref y Bont-faen.
- Mae gwefan Cyngor Llysfaen yn darparu diweddariadau gan y Cyngor ac yn cynnwys dolenni i fwy na 40 o weithgareddau cymunedol gan sefydliadau partner.
- Mae Cyngor Tref Cil-y-coed yn darparu cyhoeddiadau mynych ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Mae gan Gyngor Tref Caerwys Dudalen Facebook.

### **• Adroddiadau**

- Mae Cyngor Tref Cil-y-coed yn adrodd yn rheolaidd ar weithgareddau trwy adroddiad blynyddol.
- Mae Cyngor Tref y Barri wedi datblygu Adroddiad Blynyddol newydd sy'n dangos effaith i'r gymuned ac yn darparu gwybodaeth am y Cyngor Tref, yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwario'r praecept. Mae'r adroddiad ar gael ar-lein, ar ffurf copi caled a rhoddwyd cyhoedduswydd eang iddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wefan ac fe'i rhannwyd mewn digwyddiadau cymunedol.
- Mae gan Gyngor Cymuned Cwmbrân Adroddiadau Blynyddol a Llawlyfr Preswylwyr sydd ill dau ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein. Caiff copïau caled eu dosbarthu trwy ysgolion lleol ac mewn digwyddiadau cymunedol.
- Cyhoeddodd Cyngor Tref Blaenafon Gynllun Busnes y Cyngor Tref 2018-21, y cyntaf o'i fath, sy'n rhoi dealltwriaeth am yr hyn y mae'r cyngor yn ceisio'i gyflawni a sut y mae'n bwriadu cyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Rhoddodd gyhoedduswydd iddo ac fe'i dosbarthodd trwy Wefan y Cyngor, tudalen Facebook y Cyngor, trwy'r e-bost, cylchlythyr wythnosol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, fe'i dosbarthodd yn electronig i aelwydydd ledled Blaenafon a Thorfaen a chyhoeddodd erthyglau yng Ngwasg Rydd Pont-y-pŵl.
- Am y tro cyntaf eleni, cyhoeddodd Cyngor Tref Llanrwst Adroddiad Blynyddol ar waith y Cyngor. Mae'r adroddiad, sy'n rhychwantu cyfnod o ddeuddeg mis, yn disgrifio gwaith y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf a sut y mae hwn wedi cyfrannu at yr amgylchedd a llesiant a'u hybu.

### **• Cyfarfodydd Cyhoeddus / Sesiynau Ymgysylltu**

- Mae Cyngor Tref y Bont-faen wedi trefnu sesiwn galw heibio'n ddiweddar gan wahodd aelodau o'r cyhoedd i gwrrd â Chynghorwyr. Fe'u gwahoddwyd i roi awgrymiadau mewn blwch, y bydd y Cyngor Tref yn pori drwyddynt ac yn eu hystyried mewn ymgais i geisio datrys rhai materion lleol, hysbysu'r Awdurdod Lleol ynghylch materion a rhoi cymorth i bennu'r praecept ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar geisiadau'r Gymuned.
- Mae Cyngor Tref Caerwys yn caniatáu 'Amser i'r Cyhoedd' ar ddechrau pob un o gyfarfodydd misol y Cyngor ac mae hefyd yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus ym mis Mawrth. Gwahoddir yr holl drigolion i fod yn bresennol ac mae Cadeirydd y Cyngor yn myfyrio ar y flwyddyn a fu ac yn hysbysu ynghylch y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae Cyngor Tref Caerwys yn cynnal sgyrsiau misol gyda Chynghorydd, sy'n digwydd ar fore dydd Sadwrn.